# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Penrhyndeudraeth

**Ysgol Gynradd Penrhyndeudraeth
Penrhyndeudraeth
LL48 6AE**

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Penrhyndeudraeth

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Penrhyndeudraeth |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Lauren Humphreys |
| Person â gofal | Ceri Llwyd |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 10 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Llun – Gwener 9yb – 3yh |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Ydy |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 16.02.2022 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 13.05.2014 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 05.07.2022 |
| Mae'r person â gofal yn newydd i'r swydd. Mae pob plentyn yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. | |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Datblygu systemau cadarn ar gyfer plant ag ADY

A2 Sicrhau bod trefniadau pendant ar gyfer ddarparu profiadau dysgu yn yr awyr agored yn rheolaidd

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae bron bob plentyn yn hapus ac yn fodlon, ac yn ymdopi'n dda wrth adael eu rhieni. Maent yn hyderus wrth wneud dewisiadau am sut maent yn treulio eu hamser yn y lleoliad ac mae eu dymuniadau yn cael eu parchu gan ymarferwyr. Er enghraifft, mae'r plant yn ymuno â'r ymarferwyr wrth y bwrdd i fwyta eu byrbryd yn eu hamser eu hunain. Mae bron bob plentyn yn symud o gwmpas yr ystod eang o weithgareddau a'r ardaloedd chwarae yn hyderus. Mae hyn yn galluogi'r plant i ddilyn eu diddordebau ac i gymryd rhan mewn profiadau dysgu a chwarae yn eu hamser eu hunain yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu hunain yn hyderus wrth rannu syniadau ac ateb cwestiynau syml. Maent yn awyddus i drafod eu profiadau gydag ymarferwyr gan wybod y byddant yn derbyn gwerthfawrogiad am yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud. Mae bron pob plentyn yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol ac mae ganddynt berthynas bositif â'r ymarferwyr, sy'n rhoi teimlad o sicrwydd iddynt. Mae bron bob plentyn yn ymateb yn dda i ganmoliaeth, sy'n eu gwneud yn awyddus i rannu eu llwyddiannau. Er enghraifft, wrth iddynt ddangos eu gwaith creadigol i'r ymarferwyr, a'u balchder wrth i'r ymarferwyr werthfawrogi eu hymdrechion yn frwdfrydig.

Mae'r rhan fwyaf o blant wedi cychwyn gwneud ffrindiau. Maent yn rhyngweithio'n dda â'u cyfoedion ac yn mwynhau chwarae a chwblhau tasgau gyda'i gilydd. Er enghraifft, maent yn cydweithio'n llwyddiannus wrth ddychmygu coginio cinio i'r ymarferwyr, gan drafod pa berlysiau i'w hychwanegu a chymryd tro i ddefnyddio'r offer. Mae'r rhan fwyaf o blant yn hapus i rannu adnoddau gyda'u cyfoedion ac yn dysgu medrau cymdeithasol pwysig yn dda, fel cymryd eu tro. Er enghraifft, wrth i'r plant chwarae yn y cafn tywod, maent yn hapus i rannu'r offer ac maent yn dangos diddordeb yn ymdrechion eu ffrindiau.

Mae bron bob plentyn yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau'n dda wrth fynd i'r afael â thasgau ac maent yn mwynhau arbrofi ag offer a deunyddiau gwahanol. Er enghraifft, wrth greu toes gan ychwanegu blawd, arogl a lliw bwyd yn annibynnol. Mae'r rhan fwyaf yn chwilfrydig am y byd o'u cwmpas ac yn mwynhau chwarae a defnyddio eu dychymyg, fel chwarae'n ddychmygol yn yr ardal chwarae rôl ac esgus gofalu am y doliau gyda'u ffrindiau.

Mae bron bob plentyn yn dewis gweithgareddau'n annibynnol a dilyn eu diddordebau yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau annibynnol da, er enghraifft wrth iddynt lenwi potiau gyda dŵr a'u cario draw i ddyfrio'r blodau. Yn ogystal, yn ystod amser byrbryd, mae bron bob plentyn yn awyddus i weithredu'n annibynnol, fel golchi eu dwylo ac arllwys eu diod eu hunain.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn ac yn datblygu eu medrau yn llwyddiannus ar draws pob maes dysgu. Mae bron bob plentyn yn gwrando a chyfathrebu'n dda wrth chwarae a rhyngweithio ag ymarferwyr a'u

ffrindiau. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymateb ar lafar yn hyderus yn y Gymraeg ac yn gofyn cwestiynau synhwyrol. Er enghraifft, wrth chwarae rôl gydag ymarferydd, maent yn sgwrsio a holi'n naturiol am ba fwyd maent am ei goginio a pha lwyau a sosbenni sydd eu hangen.

Mae bron pob plentyn yn frwdfrydig wrth ganu ac yn dangos pleser mawr wrth ddewis y caneuon, gwneud symudiadau corff a geirio yn glir. Mae llawer o blant yn mwynhau edrych ar lyfrau gydag oedolyn ac yn hyderus wrth drafod y lluniau, troi tudalennau a thrin llyfrau gyda pharch. Maent yn mwynhau creu marciau syml yn annibynnol wrth beintio gyda dŵr a brwsys paent tu allan ac wrth ddefnyddio llyfrau bach nodiadau a chlipfyrddau sydd ar gael yn y gwahanol ardaloedd tu fewn.

Mae mwyafrif o blant yn rhifo'n dda wrth gyfri stompiau a naid sêr yn ystod y sesiwn dawns ac wrth gyfri faint o lwyau o dywod sy'n llenwi bwcedi meintiau gwahanol tu allan. Maent yn arbrofi â siâp wrth adeiladau pontydd a llethrau ac yn defnyddio geirfa a chysyniadau mathemategol yn ddeallus fel mwy a llai, hir a byr a thrwm ac ysgafn wrth bwyso blawd. Mae llawer yn enwi siapiau dau ddimensiwn wrth edrych ar lyfr siapiau ac yn trafod maint gwrthrychau gwahanol, gan egluro os yw'r cafnau cario dŵr yn fawr, yn fachi, neu'n llai.

Mae medrau creadigol y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n dda. Maent yn mwynhau chwarae rôl, gwisgo i fyny a defnyddio eu dychymyg. Yn yr ardal toes, maent yn greadigol wrth rolio, tynnu, gwasgu ac ychwanegu lafant a lliw i newid gwedd y toes. Mae ychydig o blant yn dangos diddordeb mewn peintio a chreu gydag offer modelu jync.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dewis offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn annibynnol, er enghraifft wrth ddefnyddio'r camera, apiau a rhaglenni syml ar lechen electronig. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau digidol yn addas wrth ddefnyddio teganau rhaglenadwy.

Mae medrau corfforol bron bob plentyn yn datblygu'n dda. Maent yn defnyddio offer mân yn hyderus wrth wisgo a chau dillad doliau. Maent yn datblygu medrau cydbwyso a phedol wrth reidio amrywiaeth o feiciau a cheir yn ystod sesiynau corfforol tu allan ac wrth gario offer fel teiars a thameidiau o bren i adeiladu tai a phontydd.

**Gofal a datblygiad:**

Mae ymarferwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant ac yn rhoi gweithdrefnau effeithiol ar waith er mwyn sicrhau bod plant yn iach a diogel. Mae pob un ohonynt wedi derbyn hyfforddiant amddiffyn plant perthnasol ac yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau i'w dilyn os oes ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae pob un o'r ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf paediatreg, sy'n eu paratoi i roi triniaeth briodol pe byddai angen. Maent yn cofnodi unrhyw ddamweiniau'n briodol, gan sicrhau bod rhiant yn arwyddo'r cofnodion hyn. Mae ymarferion tân yn cael eu cwblhau'n rheolaidd a'u cofnodi'n effeithiol.

Gwneir defnydd da o weithdrefnau pwrpasol er mwyn atal lledaenu haint. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog y plant i olchi eu dwylo'n rheolaidd ac wrth

ddilyn gweithdrefnau addas wrth drin bwyd. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo bwyta'n iach ac ymarfer corff yn llwyddiannus. Maent yn annog plant i fwyta ffrwythau ac yn sicrhau bod cyfleoedd buddiol iddynt ddatblygu eu medrau corfforol a threulio amser tu allan yn yr awyr iach yn ddyddiol.

Mae'r ymarferwyr wedi ffurfio perthnasoedd cadarnhaol â'r plant ac yn siarad â nhw'n annwyl. Maent yn trin y plant gyda gofal a pharch ac yn defnyddio strategaethau effeithiol a chyson i hybu ymddygiad cadarnhaol yn unol â pholisi'r lleoliad. Er enghraifft, maent yn denu sylw plant at weithgaredd arall os ydynt yn cael trafferthion wrth rannu neu gymryd tro ac yn cynnig esboniad clir pan nad yw eu hymddygiad yn dderbyniol. Mae'r holl ymarferwyr yn modelu medrau cymdeithasol yn effeithiol wrth chwarae wrth ochr y plant.

Mae gan y lleoliad drefniadau pwrpasol er mwyn adnabod a chefnogi anghenion unigol plant. Mae ymarferwyr yn casglu digon o wybodaeth am hoffterau, anghenion ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall cyn i'r plant gychwyn mynychu'r lleoliad. Mae hyn yn eu galluogi i gynllunio'n effeithiol ar gyfer anghenion unigol y plant. Mae gweithdrefnau addas ar waith i gyfeirio plant am gymorth gan asiantaethau allanol os oes angen. Fodd bynnag, oherwydd newidiadau staffio diweddar, mae dealltwriaeth ymarferwyr o'r systemau hyn yn anghyson. Mae ymarferwyr yn olrhain cynnydd y plant yn effeithiol drwy gynnal arsylwadau ac asesiadau rheolaidd. Maent hefyd yn creu llyfrau pwrpasol i rannu â rhieni ar ddiwedd pob blwyddyn, sy'n cynnwys ffotograffau o'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a rhai o'u llwyddiannau.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae ymarferwyr yn darparu cwricwlwm difyr sy'n cynnig profiadau gwerthfawr ac yn ymateb i anghenion plant yn llwyddiannus. Mae ethos y Cwricwlwm i Gymru i gynllunio'n ymatebol wedi datblygu'n dda. Mae'r ystod eang o brofiadau tu fewn, tu allan ac wrth ddefnyddio'r gymuned leol yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau'r plant ac yn llwyddo i greu teimlad o berthyn. Mae'r holl ymarferwyr yn cydweithio'n dda i greu ethos positif o fewn lleoliad sy'n annog plant i fod yn ddyfeisgar, annibynnol a chwilfrydig.

Mae ymarferwyr yn modelu iaith lafar yn glir ac effeithiol gan ddefnyddio geirfa, patrymau cystrawennol ac iaith ddisgrifiadol wrth i blant ceisio datrys problem neu ddyfalbarhau â sialens.. Maent yn sgwrsio'n  naturiol, yn gwrando ac ymateb i blant, ac yn holi'n  fedrus er mwyn ehangu  dealltwriaeth a medrau meddwl y plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, wrth i blant adeiladu gyda blociau pren, mae ymarferwyr yn cynnal trafodaeth am ba ddarnau pren fydd yn addas i gysylltu at ei gilydd i greu pontydd a llethrau i'r ceir.Mae'r ymarferwyr yn cefnogi'r dysgu yn effeithiol wrth chwarae wrth ochr plant. Maent yn dilyn eu diddordebau yn llwyddiannus i ymestyn eu dychymyg a'u prosesau meddwl. Mae ymarferwyr yn ymyrryd yn amserol ac yn effeithiol i atgyfnerthu'r dysgu annibynnol. Mae'r rhyngweithio crefftus hwn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau cyfathrebu a dealltwriaeth y plant.

Mae ymarferwyr yn cynllunio amrywiaeth o gyfleoedd corfforol yn ddyddiol. Mae hyn yn cael effaith bositif ar y plant wrth iddynt fwynhau reidio cerbydau gydag olwynion yn yr ardal tu allan, a chydbwyso yn yr ardal adeiladu, yn ogystal â sesiynau dawns a chadw'n heini. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i blant ddysgu'n

ymarferol wrth ddefnyddio offer creu marciau, peintio, torri a gludo. Mae ymarferwyr yn annog plant i fod yn greadigol gyda phaent ar îsl, modelau jync ac i fwynhau’r broses o baratoi toes yn hytrach na chanolbwyntio ar wrthrych gorffenedig. Mae ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i blant ddefnyddio offer TGCh yn eu chwarae gyda llechen electronig i dynnu lluniau ac yn cefnogi’r dysgu yn effeithiol wrth roi sylw ar y cyd i gemau iaith a chyfri.

Mae’r ymarferwyr yn adnabod pob plentyn yn dda ac mae perthynas agos yn bodoli rhyngddynt. Maent yn casglu gwybodaeth drylwyr gan y rhieni ar gychwyn y flwyddyn ac yn adeiladu ar hyn i ddilyn eu diddordebau a’u hoffterau. Mae gweithdrefnau arsylwi ac asesu datblygiad y plant yn effeithiol. Mae’r ymarferwyr yn arsylwi’n n gyson ac yn nodi unrhyw wybodaeth arwyddocaol am beth mae plant yn ei gyflawni. Mae ymarferwyr yn gosod heriau, yn rhoi cyfleoedd i ymarfer a mireinio medrau ac yn nodi camau nesaf yn fuddiol. Mae ymarferwyr yn cefnogi plant sydd angen cymorth ychwanegol yn y maes iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn llwyddiannus.  Fodd bynnag, ar y cyfan, mae’r prosesau ar gyfer cefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn anghyson; nid oes systemau cadarn ar gyfer cyfeirio at yr holl ystod o asiantaethau allanol, lle bo’n briodol. Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu buddiol i ddatblygu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Maent yn modelu bod yn ffeind gyda’n gilydd gan ddefnyddio iaith bositif a chyfeillgar yn gyson. Maent yn darparu cyfleoedd buddiol i drafod teimladau gan ddefnyddio pypedau a llyfrau mewn sesiynau torfol.

Mae ymarferwyr yn darparu rhai cyfleoedd diddorol sy’n cymell plant i ddangos diddordeb ym mywydau pobl eraill, er enghraifft wrth ddathlu’r Flwyddyn Newydd Tsieniaidd a Diwali. Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd diddorol i’r plant ddysgu am fod yn perthyn i Gymru a thraddodiadau Cymreig. Er enghraifft, wrth deithio ar fws i ymweld â Galeri Caernarfon a’r castell, yn ogystal â dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen.

**Yr amgylchedd:**

Mae'r arweinwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant ac yn sicrhau bod gweithdrefnau cadarn ar waith er mwyn sicrhau bod unrhyw beryglon posibl yn cael eu monitro a’u rheoli’n effeithiol. Mae asesiadau risg trylwyr yn amlinellu'r peryglon posibl a’r camau sydd wedi eu cymryd i leihau neu atal y risg i blant. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn cwblhau gwiriadau dyddiol i sicrhau nad oes unrhyw beryglon. Pan mae unrhyw beryglon yn cael eu canfod, mae'r ymarferwyr yn delio â’r rhain yn gyflym ac effeithiol, fel ysgubo’r tywod oddi ar y llawr yn ystod y sesiwn.

Mae’r ardaloedd chwarae yn braf, cyfforddus a chysurus ac mae digon o le i blant symud o gwmpas yn rhwydd. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael ymdeimlad o berthyn trwy arddangos eu gwaith ar y waliau. Mae’r ystafell chwarae wedi ei threfnu ar gyfer ardaloedd dysgu pwrpasol, gydag amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau i gyfoethogi profiadau’r plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae ystod eang o adnoddau ac offer go iawn ar gael, fel cwpanau a llestri te, bocsys a photiau bwyd gwag a hen beiriannau ac offer trydanol gyda’r batris neu cordiau wedi eu tynnu er mwyn eu gwneud yn ddiogel. Mae hyn yn galluogi’r plant i ddatblygu eu dychymyg ac yn hybu eu dealltwriaeth o’r byd o’u cwmpas. Mae’r ardal chwarae tu allan yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau a chyfleodd pwrpasol i blant.

Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn gwneud defnydd effeithiol o'r gegin fwd, y gwesty trychfilod a’r cafn dŵr a'i bibellau amrywiol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod ystod eang o adnoddau ac offer diddorol a chyffrous ar gael yn yr ystafell chwarae. Mae’r rhain o ansawdd da ac yn cael eu storio ar lefel isel er mwyn galluogi’r plant i ddewis yn annibynnol heb ymyrraeth oedolyn. Mae'r ymarferwyr yn cadw cofnod trylwyr o ba bryd mae’r ardaloedd chwarae, teganau ac adnoddau’n cael eu glanhau. Mae hyn yn digwydd yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr adnoddau’n lân ac mewn cyflwr da.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod cyfleoedd da i blant ddysgu am y byd o’u cwmpas. Gwneir defnydd effeithiol o adnoddau a deunyddiau naturiol er mwyn galluogi’r plant i arbrofi a darganfod. Er enghraifft, mae cyfleoedd da ar gael i'r plant blannu blodau, arbrofi â pherlysiau a'u haroglu a chwarae â deunyddiau sydd wedi eu hailgylchu yn yr ardal chwarae rôl. Yn ogystal, mae ystod dda o adnoddau ar gael er mwyn hybu ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliannau gwahanol ac amrywiaeth, fel llyfrau a doliau amrywiol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae gan y person cofrestredig a’r person â gofal weledigaeth glir sy’n seiliedig ar ddarparu gwasanaeth o safon uchel o ran lles, gofal a dysgu o fewn awyrgylch Gymreig. Mae’r person â gofal yn newydd i’r swydd ac wedi cydweithio’n effeithiolâ’r athrawes ymgynghorol leol a’r pwyllgor i roi syniadau newydd ar waith. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o’u hunain sy’n cyfrannu’n werthfawr at sicrhau awyrgylch ysgogol a chefnogol ar gyfer plant. Mae trafodaethau a chyfarfodydd rheolaidd rhwng arweinwyr ac ymarferwyr yn creu teimlad o dîm ac yn cyfrannu’n werthfawr at gynnig darpariaeth o ansawdd da. Mae pob ymarferydd yn deall eu rolau’n llawn ac mae’r cydweithio cadarn sydd rhyngddynt yn ategu at yr awyrgylch hamddenol a’r drefn lyfn sydd ganddynt.

Mae arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio diogel, cadarn ac amserol ac mae gan bob ymarferydd gymhwyster priodol a phrofiad eang o weithio gyda phlant. Mae’r person cofrestredig a’r person â gofal yn dilyn trefniadau effeithiol i oruchwylio a monitro ymarferwyr yn rheolaidd. O ganlyniad, mae hyfforddiant ar gyfer cefnogi gwybodaeth yr holl dîm yn ymateb i’r targedau pwrpasol ar gyfer gwella.

Mae gan arweinwyr weithdrefnau hunanwerthuso ar waith ers i’r person â gofal gychwyn yn ei rôl, sy’n amlinellu targedau synhwyrol ar gyfer datblygu’r lleoliad. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn llwyddiannus wrth roi'r targedau hyn ar waith. Er enghraifft, maent yn mireinio’r ddarpariaeth er mwyn paratoi at y Cwricwlwm i Gymru. Gwneir defnydd da o grantiau ar gyfer hyfforddiant ac adnoddau pwrpasol i gefnogi ffurfiau a phrosesau newydd y cwricwlwm ac i gefnogi profiadau a dysgu'r plant.

Mae gan y lleoliad bartneriaethau gwerthfawr â rhieni. Maent yn cynnal trafodaethau anffurfiol ac yn rhannu profiadau’r plant yn rheolaidd gan ddefnyddio ap. Mae’r ymarferwyr yn cydweithio’n effeithiol ag asiantaethau cefnogi ac athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol ac yn gweithredu i ddatblygu’r ddarpariaeth yn barhaus.

Mae gweithdrefnau priodol i rannu datblygiad y plant gyda'r ysgol ar ddiwedd y flwyddyn a chyfleoedd i blant gyfarfod ag athrawon meithrin yr ysgol cyn iddynt drosglwyddo. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio â staff yr ysgol i gael defnyddio rhan o fuarth yr ysgol ar gyfer chwarae a dysgu pwrpasol yn yr awyr agored. Fodd bynnag, does dim trefniadau pendant ar gyfer darparu sesiynau yn yr awyr agored yn rheolaidd.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/09/2022